

# SL(5)208 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 ("Gorchymyn 2018") yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf a'r telerau a'r amodau cyflogaeth eraill i weithwyr amaethyddol.

Mae Gorchymyn 2018 yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017 ("Gorchymyn 2017") gyda newidiadau sy'n cynyddu lefelau cyflog 2017 ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

## Y weithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd dau bwnt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### 1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - mae angen eglurhad pellach ar ystyr yr offeryn.

Yn gryno, mae erthygl 15(1) yn dweud, pan fo cyflogwr yn darparu tŷ i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £1.50 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol.

Yn gryno, mae erthygl 15(2) yn dweud, pan fo cyflogwr yn darparu "llety arall" i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £4.82 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol.

Ymddengys fod didyniad o £4.82 yr awr yn ddiidyniad mawr iawn o ystyried y cyfraddau fesul awr sy'n berthnasol i weithwyr amaethyddol. Felly, byddem yn gwerthfawrogi: (1) cadarnhad o p'un a yw ein dealltwriaeth o erthyglau 15(1) a 15(2) yn gywir, a (2) rhagor o wybodaeth am ddarparu "llety arall" a'r didyniad a ganiateir o dan erthygl 15(2).

### 2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ymddengys fod anghysondeb rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Mae Erthygl 43(2) yn y Gymraeg yn gwneud trefniadau trosiannol ar gyfer "gweithiwr amaethyddol a gyflogir fel gweithiwr ar Radd neu fel prentis ond nid fel gweithiwr hyblyg".

Mae Erthygl 43(2) yn y Saesneg yn gwneud trefniadau trosiannol ar gyfer "gweithiwr amaethyddol a gyflogir fel gweithiwr ar Radd neu fel prentis". Felly, yn y Saesneg nid oes sôn am weithwyr hyblyg.

## Craffu ar y rhinweddau

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### 1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – mae'r offeryn o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch pam na wnaed y Gorchymyn 2018 hwn tan 27 Mawrth 2018 ac na chafodd ei osod tan ar ôl 16.00 ar 29 Mawrth 2018 (Dydd Iau'r Gofid), yn enwedig o gofio ei ddyddiad dod i rym ar 1 Ebrill 2018 (Dydd Sul y Pasg).



Nodwn y cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod hydref 2017, ac y cafodd y newidiadau yn y cyfraddau cyflogau sylfaenol a byw cenedlaethol eu gwneud ddiwedd mis Tachwedd 2017 a arweiniodd at adolygiad. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch pam y cymerodd dros bedwar mis i adlewyrchu'r adolygiad mewn Gorchymyn terfynol 2018.

Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ynghylch pam na chawsom ein hysbysu'n ffurfiol cyn y problemau gyda'r Gorchymyn hwn o ystyried bod torri'r rheol 21 diwrnod wedi digwydd ar 9 Mawrth 2018.

Yn ogystal â materion o ran amseru a chyfathrebu, teimlwn hefyd yr angen i fynegi'r pryder hwn oherwydd bod gorchymyn y llynedd (h.y. Gorchymyn 2017) hefyd wedi torri'r rheol 21 diwrnod, pan gafodd ei wneud ar 2 Tachwedd 2017 ac y daeth i rym ar 3 Tachwedd 2017.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

### **Ymateb Drafft y Llywodraeth i Adroddiad Craffu y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018**

#### **Craffu Technegol:**

#### **Pwynt 1: Rheol Sefydlog 21.2(v) – mae angen eglurhad pellach ar ystyr yr offeryn.**

Ni dderbynnir y pwynt.

Mae erthygl 15(1) - (3) yn darparu:

“(1) Pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu tŷ i weithiwr amaethyddol am y cyfan o'r wythnos honno, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £1.50 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ar gyfer yr wythnos honno.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu llety arall i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £4.82 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn am bob diwrnod yn yr wythnos y darperir y llety arall i'r gweithiwr.

(3) Dim ond pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi gweithio o leiaf 15 awr yn ystod yr wythnos honno y caniateir i'r didyniad ym mharagraff (2) gael ei wneud.”

Mae darparu tŷ neu lety arall i weithiwr amaethyddol yn daliad mewn nwyddau, a gaiff fod yn rhan o isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol. Mae erthygl 15 yn rhagnodi'r symiau y caniateir eu didynnu pan gaiff tŷ neu lety arall ei ddarparu.

Yn unol ag erthygl 15(2), caniateir gwneud didyniad bach o £4.82 am bob diwrnod mewn unrhyw wythnos pan gaiff 'llety arall' ei ddarparu i'r gweithiwr, a dim ond pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi gweithio o leiaf 15 awr yn ystod yr wythnos honno y caniateir gwneud y didyniad. Nid oes cyfyngiad ar y cyfeiriad at 'llety arall' yn y Gorchymyn, ac mae hynny'n fwriadol.

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor wybod bod y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth, sy'n llunio gorchymynion cyflogau amaethyddol drafft ar gyfer Gweinidogion Cymru fel rhan o'i gylch gwaith, yn edrych ar y



darpariaethau mewn gorchmynion cyflogau amaethyddol ar hyn o bryd. Mae'r Lwfans Gwrthbwysio Llety wedi ei gynnwys yn yr ymarfer hwnnw.

**Pwynt 2: Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ymddengys fod anghysondeb rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.**

Derbynnir y pwynt.

Nid yw'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn gyfwerth. Bydd y pwynt hwn yn cael ei ystyried o'r newydd mewn unrhyw orchmynion cyflogau amaethyddol a fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol.

**Craffu ar Rinweddau:**

**Pwynt 1: Rheol Sefydlog 21.3(ii) – mae'r offeryn o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Ni dderbynnir y pwynt.

Mae swyddogaethau Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru ("y Panel") yn cynnwys llunio gorchmynion cyflogau amaethyddol drafft, ymgynghori ar y gorchmynion hynny a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Yn unol â'i swyddogaethau, cyflwynodd y Panel Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) drafft 2018 i'w gymeradwyo ym mis Tachwedd 2017.

Cafodd newidiadau i gyfraddau'r isafswm cyflog cenedlaethol, a oedd i gael effaith ar 1 Ebrill 2018, eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2017, ar ôl i'r Panel gyflwyno'r Gorchymyn drafft i'w gymeradwyo. Roedd cyfraddau arfaethedig yr isafswm cyflog cenedlaethol yn uwch na'r disgwyl ac, mewn rhai agweddau, yn uwch na chyfraddau'r isafswm cyflog amaethyddol yr oedd y Panel wedi eu cynnig yn y Gorchymyn drafft.

Mae adran 3(5) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn atal rhagnodi cyfraddau'r isafswm cyflog amaethyddol mewn gorchmynion cyflogau amaethyddol sy'n is na chyfraddau'r isafswm cyflog cenedlaethol. Fe wnaeth y Panel ailystyried cyfraddau arfaethedig yr isafswm cyflog amaethyddol oedd yn y Gorchymyn drafft, gan gyflwyno Gorchymyn diwygiedig tua deufis yn ddiweddarach, ym mis Ionawr 2018.

Bwriad y Panel o hyd oedd y byddai Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 drafft yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018, yr un dyddiad ag y byddai cyfraddau uwch yr isafswm cyflog a'r cyflog byw cenedlaethol yn cael effaith. Mae cyflwyno newidiadau i gyfraddau'r isafswm cyflog amaethyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ac ar yr un pryd â'r codiadau eraill yn y cyfraddau isafswm cyflog yn hwyluso trefniadau cynllunio busnes o fewn y diwydiant ac yn rhoi eglurder i weithwyr a chyflogwyr amaethyddol.

Mae adran 4(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl cael gorchymyn cyflogau amaethyddol drafft oddi wrth y Panel—

(a) cymeradwyo a gwneud y Gorchymyn, neu

(b) cyfeirio'r gorchymyn yn ôl at y Panel i'w ystyried ymhellach a'i ailgyflwyno.

Fe wnaed y penderfyniad i dorri'r rheoli 21 diwrnod ar 22 Mawrth, fel bod modd bodloni'r dyddiad dod i rym o 1 Ebrill, er mwyn cynnig eglurder i'r diwydiant wrth iddo gynllunio ei fusnes.



Cafodd Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 ei gymeradwyo a'i wneud ar 27 Mawrth 2018. Yn dilyn y broses gofrestru, gosodwyd y Gorchymyn ar 29 Mawrth 2018.

Yn unol â'r gofyniad yn adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, anfonodd Arweinydd y Tŷ hysbysiad at y Llywydd i dynnu sylw at y ffaith na chafodd copi o'r offeryn ei osod gerbron y Cynulliad o leiaf 21 o ddiwrnodau cyn iddo ddod i rym, ac i roi'r rhesymau dros hynny.

Mae'r pryder na chafodd y Pwyllgor unrhyw hysbysiad ychwanegol yn cael ei nodi, a byddwn yn ystyried a fyddai o gymorth rhoi hysbysiad ymlaen llaw pe bai amgylchiadau tebyg yn codi mewn cysylltiad â gorchmynion cyflogau yn y dyfodol.

## Ystyriaeth gan y Pwyllgor

---

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill ynghyd ag ymateb y Llywodraeth.

### **Pwynt Adrodd Technegol 1**

Nodwn fod yr esboniad a ddarparwyd gan y Llywodraeth yn nodi'n glir y bwriad polisi mai'r cyfanswm y gellir ei ddiynnu ar gyfer darparu "llety arall" o dan erthygl 15(2) yw £4.82 y dydd. Fodd bynnag, credwn y gellid bod wedi gwneud hynny'n gliriach yn y Gorchymyn a'r Memorandwm Esboniadol.

Cafodd y sefyllfa ei drysu ymhellach gan erthygl 15(1). Ers hynny rydym wedi cael cadarnhad gan y Llywodraeth mai'r cyfanswm y gellir ei ddiynnu ar gyfer darparu "tŷ" o dan erthygl 15(1) yw £1.50 yr wythnos. Unwaith eto, nid oes eglurhad yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch pam ei bod yn briodol didynnu £1.50 yr wythnos am dŷ ond £4.82 y dydd am lety arall.

### **Pwynt Adrodd Technegol 2**

Rydym yn nodi y bydd yr anghysondeb yn cael sylw mewn gorchmynion cyflogau amaethyddol yn y dyfodol ac felly bydd yr anghysondeb yn parhau yn y ddeddfwriaeth nes ei fod yn cael ei gywiro. Nodwn hefyd nad yw ymateb y Llywodraeth yn nodi pa fersiwn sy'n gywir, y Gymraeg neu'r Saesneg.

### **Pwynt Adrodd Rhinweddau 1**

Nid yw'n glir pam y cymerodd tan 27 Mawrth 2018 i gymeradwyo'r Gorchymyn Drafft, pan gyflwynwyd y Gorchymyn drafft i Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2018.

Roedd gadael y gymeradwyaeth mor hwyr wedi golygu bod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (a'i thorri gan 19 diwrnod cyfan). Mae'r rheol 21 diwrnod yn rheol bwysig, dyna pam ei fod mewn statud, a rhaid cymryd achos o dorri'r rheol o ddifrif. Felly, byddwn yn ysgrifennu at y Llywodraeth ar wahân am y materion amseru hyn.

